**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/2512/23

Awdurdodau Lleol – Pennaeth Cynllunio

11 Hydref 2023

Annwyl gydweithiwr,

Rwyf eisoes wedi tynnu sylw at y rôl hanfodol y mae'n rhaid i'r system gynllunio ei chwarae wrth gyflawni'r heriau a gyflwynwyd gan y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang y cytunwyd arno yn COP15, datblygwyd argymhellion Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth mewn ymateb i hyn ac wrth barhau i gyflawni ein dyletswydd Adran 6 i gynnal a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yng Nghymru COP15, Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, Dyletswydd Adran 6 a'r System Gynllunio (llyw.cymru).

Ymgynghorwyd ar y newidiadau arfaethedig i'r polisi cynllunio, a nodais bryd hynny, rhwng 09 Mawrth a 31 Mai 2023. Roeddwn yn croesawu yn fawr yr ymatebion meddylgar a chynhwysfawr a gafwyd i'r ymarfer ymgynghori hwn sy'n ymwneud â seilwaith gwyrdd, budd net ar gyfer bioamrywiaeth, yr amddiffyniad a roddir i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a choed a choetiroedd.

Gan ystyried yr ymatebion hyn rwyf wedi cwblhau polisi i'w gynnwys yn yr iteriad nesaf o Bolisi Cynllunio Cymru (fersiwn 12) fydd yn ymddangos yn ddiweddarach eleni. O ystyried yr angen i gadw momentwm ar gyflawni ein rhwymedigaethau COP15 a'n dyheadau Archwilio Dwfn, fodd bynnag, rwy'n cyhoeddi polisi pennod 6 wedi'i ddiweddaru i'w weithredu ar unwaith fel atodiad i'r llythyr hwn.

Gellir crynhoi'r prif newidiadau i'r polisi fel a ganlyn:

***Seilwaith Gwyrdd***: pwyslais cryfach ar ddefnyddio dull rhagweithiol o ymdrin â seilwaith gwyrdd sy'n cwmpasu ystyriaethau trawsffiniol, nodi allbynnau allweddol asesiadau seilwaith gwyrdd, cyflwyno datganiadau seilwaith gwyrdd cymesur gyda cheisiadau cynllunio a chyfeirio at safonau Adeiladu â Natur.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

***Budd Net ar gyfer Bioamrywiaeth a'r Dull Stepwise***: Darperir eglurder pellach ar sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth trwy gymhwyso'r dull Stepwise, gan gynnwys cydnabod mesurau iawndal oddi ar y safle fel dewis olaf, a'r angen i ystyried gwella a rheoli tymor hir ar bob cam. Mae'r defnydd o'r datganiad seilwaith gwyrdd fel modd o ddangos y dull Stepwise yn cael ei wneud yn glir. Datblygwyd diagram symlach o'r dull polisi (a fydd yn cael ei fireinio ymhellach yn y fersiwn cyfunol o Bolisi Cynllunio Cymru12). Cydnabyddir pwysigrwydd cydweithredu strategol i nodi a chipio cyfleoedd ar raddfa fwy i sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth.

***Diogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig:*** dull cryfach o amddiffyn SoDdGAau, gyda mwy o eglurder ynghylch y sefyllfa ar gyfer rheoli safleoedd ac eithriadau ar gyfer mân ddatblygiadau sy'n angenrheidiol i gynnal 'tirwedd fyw'. Ystyrir bod datblygiadau eraill yn annerbyniol fel mater o egwyddor. Weithiau, gall dull a gynlluniwyd fod yn briodol lle gellir sicrhau mesurau diogelu angenrheidiol trwy gynllun datblygu.

***Coed a Choetiroedd***: aliniad agosach at y dull Stepwise, ynghyd â hyrwyddo plannu newydd fel rhan o ddatblygiad yn seiliedig ar sicrhau'r goeden gywir yn y lle iawn.

Rwy'n bwriadu cyhoeddi fersiwn 12 o Bolisi Cynllunio Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol a byddaf yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddarparu arweiniad pellach i alluogi gweithredu'r polisi hanfodol sydd ym Mhennod 6.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change